Department for Business, Energy & Industrial Strategy

Gweinyddiaeth Cyfiawnder

# DIWYGIO SYSTEM Y TRIBIWNLYSOEDD CYFLOGAETH

## Ymateb y Llywodraeth

Chwefror 2017

# Cynnwys

Cyflwyniad 3

Ystyriaethau ehangach 4

Datganoli 4

Ffioedd tribiwnlysoedd 4

Crynodeb o'r ymatebion 6

Moderneiddio sut yr ymdrinnir â hawliadau yn y Tribiwnlysoedd Cyflogaeth 7

Cwestiwn 1: A ydych chi'n cytuno y gellir ateb anghenion penodol defnyddwyr Tribiwnlysoedd Cyflogaeth a'r Tribiwnlys Apêl Cyflogaeth drwy ddulliau mwy digidol pe bai'r system gywir yn cael ei sefydlu? 7

Cwestiwn 2: Pa faterion yn eich barn chi y mae angen eu hystyried wrth benderfynu a fyddai'n addas ystyried hawliad ar-lein? 9

Dirprwyo swyddogaethau barnwrol i weithwyr achos 12

Cwestiwn 3: Pa ffactorau yn eich barn chi y dylid eu hystyried wrth greu'r cwmpas er wyn cael rhagor o hyblygrwydd ar gyfer dirprwyo swyddogaethau barnwrol yn y tribiwnlysoedd cyflogaeth a'r Tribiwnlys Apêl Cyflogaeth? 12

Cwestiwn 4: A oes unrhyw sgiliau arbennig y byddai eu hangen ar weithiwr achos sy'n delio â thribiwnlysoedd cyflogaeth a'r Tribiwnlys Apêl Cyflogaeth, sy'n unigryw ac yn wahanol o'u cymharu â'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer gwaith achos mewn tribiwnlysoedd eraill? 15

Teilwra'r panel at anghenion yr achos 18

Cwestiwn 5: A oes materion penodol yn berthnasol i'r Tribiwnlys Cyflogaeth a'r Tribiwnlys Apêl Cyflogaeth y mae angen eu hystyried o ran newid y gyfraith ynglŷn â chyfansoddiad paneli? 18

Y dull a gynigir ar gyfer diwygio System y Tribiwnlysoedd Cyflogaeth 21

Cwestiwn 6: Pa feini prawf y dylid eu defnyddio wrth benodi'r aelod newydd – yr ymarferydd cyflogaeth – i Bwyllgor Gweithdrefn y Tribiwnlysoedd? 21

Cwestiwn 7: A ydych yn cytuno y bydd y newidiadau deddfwriaethol arfaethedig yn cynnig digon o hyblygrwydd i sicrhau bod modd cydnabod yn briodol nodweddion penodol y tribiwnlysoedd cyflogaeth a'r Tribiwnlys Apêl Cyflogaeth yn y system cyfiawnder ddiwygiedig? 23

Asesu'r Effaith ac Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb 26

Cwestiwn 8: A ydych yn rhagweld y bydd effeithiau'r diwygio arfaethedig yn anghymesur o fawr ar gyfer busnesau bach neu ficro? 27

Cwestiwn 9: A ydych yn cytuno ein bod wedi nodi'n gywir yr ystod o effeithiau ar gydraddoldeb yn sgil y cynigion hyn, fel y'u nodir yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb? 28

Atodiad A: Rhestr o'r unigolion/sefydliadau yr ymgynghorwyd â hwy 31

# Cyflwyniad

1. Cyhoeddwyd papur ymgynghori 'Diwygio System y Tribiwnlysoedd Cyflogaeth'[1] ar **5 Rhagfyr 2016**.

2. Roedd y papur yn amlinellu ein cynigion ar gyfer newidiadau i Ddeddf Tribiwnlysoedd Cyflogaeth 1996 er mwyn darparu fframwaith deddfwriaethol creiddiol mwy hyblyg a fyddai'n gwneud yn siŵr bod modd rhoi unrhyw ddiwygiadau gweithdrefnol neu weithredol a fyddai'n cael eu cyflwyno yn y dyfodol ar waith yn fuan, mewn ffordd sy'n adlewyrchu anghenion amrywiol defnyddwyr tribiwnlysoedd cyflogaeth a'r Tribiwnlys Apêl Cyflogaeth.

3. Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn am farn ynglŷn â phedwar maes penodol:

   - Moderneiddio sut yr ymdrinnir â hawliadau yn y tribiwnlysoedd cyflogaeth
   - Dirprwyo swyddogaethau barnwrol i weithwyr achos
   - Teilwra'r panel at anghenion yr achos
   - Y dull a gynigir ar gyfer diwygio system y tribiwnlysoedd cyflogaeth

4. Daeth y cyfnod ymgynghori i ben ar **20 Ionawr 2017**. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r ymatebion a dderbyniwyd i'r cynigion hyn ac yn nodi sut y mae'r Llywodraeth yn bwriadu symud ymlaen.

[1] www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/575001/Reforming_the_Employment_Tribunal_System_-_Consultation_Document_v3.pdf

# Ystyriaethau ehangach

## Datganoli

5. Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi ymrwymo i drosglwyddo swyddogaethau system y tribiwnlysoedd cyflogaeth i'r Alban fel rhan o'r broses o weithredu Cytundeb Comisiwn Smith. Ar ôl trosglwyddo'r swyddogaethau, bydd Llywodraeth yr Alban yn gyfrifol am benderfynu sut y bydd tribiwnlysoedd yn yr Alban sy'n gwrando hawliadau cyflogaeth yn cael eu rheoli yn y dyfodol. Mae union amser a threfniadau'r broses drosglwyddo yn dal i gael eu trafod, ac nid yw Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth yr Alban wedi cytuno arnynt eto.

6. Bydd Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn dal yn gyfrifol am reoli gweithrediadau'r tribiwnlysoedd cyflogaeth a'r Tribiwnlys Apêl Cyflogaeth nes byddant yn cael eu trosglwyddo i'r Alban, ond rydym yn cydnabod y gallai unrhyw ddiwygiadau i'r tribiwnlysoedd hynny fod â goblygiadau o ran y broses drosglwyddo. Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth yr Alban wedi bod yn gweithio mewn cysylltiad agos ar gynlluniau i weithredu Cytundeb Comisiwn Smith, a byddant yn dal i wneud hynny yng nghyd-destun ein cynlluniau i ddiwygio system y tribiwnlysoedd cyflogaeth sy'n cael eu hamlinellu yn yr ymateb hwn.

## Ffioedd tribiwnlysoedd

7. Er nad oedd yn rhan o'r ymgynghoriad, cyfeiriodd nifer o'r ymatebwyr at fater ffioedd tribiwnlysoedd. Ar 31 Ionawr 2017 cyhoeddodd y Llywodraeth ei hadolygiad ar ôl gweithredu o ffioedd tribiwnlysoedd cyflogaeth.[2] Mae'r adolygiad yn cynnwys ymgynghoriad ar gynigion pellach i ehangu'r gefnogaeth sydd ar gael i bobl dan y cynllun Help i Dalu Ffioedd. Byddai'r cynigion hyn yn helpu pobl ar incwm isel, a disgwylir yn fwyaf arbennig y byddant o fudd i ferched, pobl anabl a phobl o gefndiroedd Du a Lleiafrifoedd Ethnig, gan fod mwy ohonynt ar gyfartaledd mewn grwpiau incwm isel. Bydd yr ymgynghoriad yn dod i ben ar 14 Mawrth 2017 a gellir dod o hyd iddo ar GOV.UK.[3]

8. Er bod yr adolygiad yn dod i'r casgliad bod y system ffioedd a dileu ffioedd sy'n cael ei defnyddio ar hyn o bryd yn gweithio'n effeithiol ar y cyfan, mae wedi nodi rhai meysydd y gellid eu gwella. Yn fwyaf arbennig, mae'r gostyngiad yn nifer yr hawliadau i dribiwnlysoedd cyflogaeth, a'r dystiolaeth bod rhai pobl yn teimlo bod y ffioedd yn eu hatal rhag cyflwyno hawliad, wedi'n perswadio bod angen gwneud rhywbeth i sicrhau'r cydbwysedd. O ganlyniad, mae'r Llywodraeth wedi penderfynu y gellir cyfiawnhau addasu'r cynllun presennol er mwyn lleihau'r effeithiau hyn. **Credwn mai'r ffordd decaf a mwyaf effeithiol o wneud hyn yw drwy addasu'r cynllun Help i Dalu Ffioedd**.

9. Rydyn ni'n cynnig bod y trothwy incwm misol gros ar gyfer dileu'r ffi yn llawn yn cael ei godi o £1,085 i £1,250, sy'n cyfateb yn fras i'r Cyflog Byw Cenedlaethol. O ganlyniad, byddai mwy o bobl yn gymwys i gael dileu ffi yn llawn a byddai eraill yn cyfrannu llai nag y maent yn ei gyfrannu dan y trefniadau presennol. Credwn mai dyma'r ffordd fwyaf effeithiol a theg o fynd i'r afael â'r problemau rydym wedi eu gweld gan eu bod yn targedu

[2] Gweler: https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/review-of-fees-in-employment-tribunals
[3] Gweler: https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/review-of-fees-in-employment-tribunals

pobl ar incwm isel, sef y rhai mwyaf tebygol, yn ein barn ni, o deimlo bod y ffioedd y mae’n rhaid eu talu yn eu hatal rhag cyflwyno hawliad.

10. Er bod y cynigion hyn wedi’u datblygu er mwyn mynd i’r afael â phryder ynglŷn ag effaith ffioedd yn system y tribiwnlysoedd cyflogaeth yn benodol, mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi yn gweithredu cynllun safonol ar draws ei holl awdurdodaethau codi ffioedd, ar wahân i’r Tribiwnlys Haen Gyntaf (Siambr Mewnfudo a Lloches) lle mae polisi dileu ffioedd, esemptio a hepgor ar wahân yn bodoli. Pe cânt eu rhoi ar waith, byddai ein cynigion diweddaraf hefyd o fudd i’r rheini sy’n dod ag achosion i unrhyw lys neu dribiwnlys lle gallai’r cynllun Help gyda Ffioedd fod yn berthnasol, er enghraifft, yn y llysoedd teulu neu’r llysoedd sifil.

11. Mae’r adolygiad a gyhoeddwyd hefyd yn datgan y bydd tair set o achosion, sy’n ymwneud â thaliadau o’r Gronfa Yswiriant Gwladol, wedi eu hesemptio rhag talu ffioedd.

12. Mae’r Llywodraeth yn adolygu ffioedd llysoedd a thribiwnlysoedd yn rheolaidd, a bydd yn ystyried lefel briodol y ffioedd wrth i ni ddatblygu ein cynlluniau manwl i ddiwygio system y Tribiwnlys Cyflogaeth.

# Crynodeb o'r ymatebion

13. Derbyniasom 77 o ymatebion i'r ymgynghoriad. Mae rhestr o'r ymatebwyr i'w gweld yn Atodiad A. Ni roddir enwau'r unigolion a ymatebodd. Gwelir crynodeb o'r mathau o ymatebwyr yn y tabl isod.

| Math o ymatebwr | Nifer yr ymatebion |
|---|---|
| Cynrychiolydd cyfreithiol | 23 |
| Unigolyn | 12 |
| Y Farnwriaeth | 11 |
| Undeb Llafur | 9 |
| Arall | 7 |
| Elusen neu fenter gymdeithasol | 6 |
| Sefydliad sy'n cynrychioli busnesau / Corff masnach | 3 |
| Busnes mawr (dros 250 o staff) | 2 |
| Llywodraeth | 1 |
| Adnoddau Dynol (AD) | 1 |
| Llywodraeth leol | 1 |
| Busnes bach (10 i 49 o staff) | 1 |

# Moderneiddio sut yr ymdrinnir â hawliadau yn y Tribiwnlysoedd Cyflogaeth

14. Mae rhai rhannau o system y tribiwnlysoedd cyflogaeth a'r Tribiwnlys Apêl Cyflogaeth yn gweithredu'n ddigidol yn barod, ac mae tua 90% o'r hawliadau'n cael eu cyflwyno ar-lein. Er hyn, mae llawer o'r gwaith prosesu a rheoli achosion dilynol yn cael ei wneud ar bapur. Nod y rhaglen ddiwygio yw cynyddu'r digideiddio er mwyn gwneud y system yn fwy hygyrch, syml a chost-effeithiol. Mae mwy o ddigideiddio'n golygu rhagor o gyfleoedd i'r partïon drafod gyda'r tribiwnlys ac ymgysylltu â'i gilydd ar-lein drwy offer digidol newydd, a fydd yn arbed amser ac arian.

15. Efallai hefyd y bydd modd ystyried a gwneud penderfyniad ynglŷn â rhagor o achosion drwy ddulliau rhithwir. Mae hyn yn cynnwys defnyddio'r ffôn, gwasanaethau ar-lein a chynadleddau fideo. Mae'r Llywodraeth yn awyddus i sicrhau y bydd gweithrediad y Tribiwnlysoedd Cyflogaeth a'r Tribiwnlys Apêl Cyflogaeth yn ddigon hyblyg i ganiatáu hyn yn y dyfodol os yw'n briodol.

## Cwestiwn 1: A ydych chi'n cytuno y gellir ateb anghenion penodol defnyddwyr Tribiwnlysoedd Cyflogaeth a'r Tribiwnlys Apêl Cyflogaeth drwy ddulliau mwy digidol pe bai'r system gywir yn cael ei sefydlu?

16. Atebwyd y cwestiwn hwn gan 71 o ymatebwyr. Mae dadansoddiad o'r mathau o ymatebwyr i'w weld yn y tabl isod.

| Math o ymatebwr | Nifer yr ymatebion |
|---|---|
| Cynrychiolydd cyfreithiol | 22 |
| Unigolyn | 10 |
| Y Farnwriaeth | 10 |
| Undeb Llafur | 9 |
| Elusen neu fenter gymdeithasol | 6 |
| Arall | 6 |
| Sefydliad sy'n cynrychioli busnesau / Corff masnach | 3 |
| Busnes mawr (dros 250 o staff) | 2 |
| Llywodraeth | 1 |
| Llywodraeth leol | 1 |
| Busnes bach (10 i 49 o staff) | 1 |

### *Crynodeb o'r ymatebion*

17. Rhoddodd 45 o'r ymatebwyr ateb pendant i'r cwestiwn. O'r rhain, roedd 35 yn amlwg yn cytuno a 10 yn anghytuno. Roedd yr ymatebion eraill yn fwy amrywiol.

18. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno at ei gilydd y byddai'n fuddiol digideiddio rhywfaint ar y system, ond roedd maint y gefnogaeth i'r cynnig yn amrywio. Dywedodd rhai o'r ymatebwyr fod y partïon eisoes yn cysylltu cryn dipyn â'i gilydd drwy e-bost a thros y ffôn. Y brif thema a ddaeth i'r amlwg oedd pryder na fyddai'r broses o newid i

system ddigidol yn cael ei rheoli'n dda iawn ac na fyddai digon o adnoddau. Hefyd credwyd y dylai bod mesurau ar waith i sicrhau bod gan staff a'r farnwriaeth fynediad priodol at adnoddau newydd a'u bod yn cael eu hyfforddi i'w defnyddio, fel nad ydynt yn cael eu rhwystro rhag cyflawni eu gwaith. Thema eilaidd oedd y risg o beidio â chael prosesau addas ar gyfer y rhai nad ydynt yn gallu cael mynediad at wefannau, ebost, cyfleusterau cyswllt fideo neu alwadau cynadledda, neu nad ydynt yn gallu eu defnyddio, ac y byddai hyn yn rhwystro pobl rhag gallu cael mynediad at gyfiawnder.

19. O ran y rhai a oedd yn anghytuno â'r cynnig, roedd cefnogaeth o hyd i ddigideiddio rhai elfennau o'r broses, megis systemau mewnol Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi ar gyfer prosesu achosion ac ymdrin â materion rheoli achosion – hyd yn oed os nad oedd y gefnogaeth yn ymestyn i gyswllt digidol â'r partïon neu rith-wrandawiadau. Mynegodd nifer fach o ymatebwyr bryder ynglŷn â'r goblygiadau o safbwynt cyfiawnder agored os na fydd gwrandawiadau'n cael eu cynnal wyneb yn wyneb, ac roedd ychydig o ymatebwyr eraill yn gwrthwynebu unrhyw bosibilrwydd y gallai canlyniadau achosion gael eu pennu drwy broses wneud penderfyniadau wedi'i hawtomeiddio yn y dyfodol, er nad yw hynny'n fater sy'n cael ei ystyried.

### *Ymateb y Llywodraeth*

20. Mae'r Llywodraeth yn croesawu'r ffaith fod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn credu bod modd mabwysiadu digideiddio mewn Tribiwnlysoedd Cyflogaeth ac yn y Tribiwnlys Apêl Cyflogaeth cyn belled â bod y broses yn cael ei rheoli'n dda a bod cefnogaeth ar gael i bwy bynnag sydd ei hangen. Gall y system dribiwnlysoedd bresennol fod yn gymhleth ac yn aneffeithlon, ac mae'n dibynnu llawer iawn ar ddogfennau papur. Mae systemau TG sydd wedi dyddio a gwaith papur cymhleth yn rhoi mwy o faich ar ddinasyddion sy'n paratoi ac yn cyflwyno eu hachosion eu hunain.

21. Rydym yn cydnabod y pryder ynglŷn â'r risg y bydd systemau TG newydd yn achosi problemau na ellir eu rhagweld a byddwn yn darparu cyfarpar newydd priodol, ynghyd â hyfforddiant priodol i farnwyr a staff. Bydd rhaglen ddiwygiadau Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi yn cael ei gweithredu dros nifer o flynyddoedd, ac ar hyn o bryd disgwylir y bydd y gwaith o drawsnewid y Tribiwnlysoedd Cyflogaeth a'r Tribiwnlys Apêl Cyflogaeth i fod yn ddigidol yn digwydd yn rhan olaf y rhaglen honno. O ganlyniad, byddwn yn gallu manteisio ar wersi ymarferol a ddysgwyd yn dilyn mathau tebyg o ddiwygiadau mewn llysoedd a thribiwnlysoedd eraill. Bydd y gwaith o ddatblygu systemau digidol yn cael ei wneud drwy ddull ailadroddol, gan brofi'r ddarpariaeth gyda defnyddwyr o bob math yn ystod pob cam. Credwn y bydd y dull hwn yn lleihau rhai o'r risgiau anorfod sy'n gysylltiedig â newid i ddigidol.

22. Rydym hefyd yn cytuno â'r angen i sicrhau na fydd y newid i system fwy ar-lein yn rhoi unrhyw hawlwyr neu ymatebwyr nad ydynt yn gallu cael mynediad at systemau digidol, neu nad ydynt yn teimlo'n gyfforddus wrth ryngweithio ar-lein, dan anfantais. Yn ein hymateb i ymgynghoriad *Gweddnewid ein system gyfiawnder*[4] rydym wedi amlinellu'r cynllun "digidol â chymorth" y byddwn yn ei sefydlu ym mhob llys a thribiwnlys ar gyfer unrhyw un sydd angen arweiniad neu help i ddefnyddio gwasanaethau ar-lein. Bydd y cynllun ar gael i ddefnyddwyr tribiwnlysoedd cyflogaeth a'r Tribiwnlys Apêl Cyflogaeth yn rhad ac am ddim. Fel y nodwyd, ar hyn o bryd mae tua 90% o'r hawlwyr yn dewis cyflwyno eu hawliad ar-lein. Felly, byddwn yn ceisio cynyddu'r nifer sy'n defnyddio ein

[4] www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/590391/transforming-our-justice-system-government-response.pdf

darpariaeth ddigidol bresennol, ond yn cadw'r opsiwn o drywydd papur mewn tribiwnlysoedd cyflogaeth ac yn y Tribiwnlys Apêl Cyflogaeth i bwy bynnag sydd angen ei ddefnyddio.

23. Rydym yn bwriadu digideiddio'r broses hawliadau yn ei chyfanrwydd fel bod defnyddwyr yn gallu dechrau hawliad, tracio cynnydd, darparu tystiolaeth a gwybodaeth, a chymryd rhan mewn dulliau datrys arloesol yn ddigidol os ydynt yn gallu gwneud hynny ac os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Bydd hyn yn cyflymu'r broses o ddatrys anghydfodau ac yn caniatáu i ddefnyddwyr ymgysylltu â'r tribiwnlys ar adegau ac mewn lleoliadau sy'n gyfleus iddynt hwy. Bydd hyn hefyd yn golygu mewn rhai achosion na fydd angen o bosibl i'r tribiwnlys gynnal gwrandawiad ffisegol er mwyn penderfynu ynglŷn â chanlyniad hawliad. O ran y rhai a oedd yn bryderus y byddai penderfyniadau'n cael eu gwneud yn awtomatig drwy dechnoleg, hoffem eich sicrhau nad yw hyn yn cael ei ystyried.

## Cwestiwn 2: Pa faterion yn eich barn chi y mae angen eu hystyried wrth benderfynu a fyddai'n addas ystyried hawliad ar-lein?

24. Atebwyd y cwestiwn hwn gan 71 o ymatebwyr. Mae dadansoddiad o'r mathau o ymatebwyr i'w weld yn y tabl isod.

| Math o ymatebwr | Nifer yr ymatebion |
|---|---|
| Cynrychiolydd cyfreithiol | 22 |
| Unigolyn | 10 |
| Y Farnwriaeth | 9 |
| Undeb Llafur | 9 |
| Arall | 7 |
| Elusen neu fenter gymdeithasol | 5 |
| Sefydliad sy'n cynrychioli busnesau / Corff masnach | 3 |
| Busnes mawr (dros 250 o staff) | 2 |
| Llywodraeth | 1 |
| Llywodraeth leol | 1 |
| Busnes bach (10 i 49 o staff) | 1 |
| Adnoddau Dynol (AD) | 1 |

### *Crynodeb o'r ymatebion*

25. Y thema fwyaf cyffredin yn yr ymatebion i'r cwestiwn hwn oedd mai natur a chymhlethdod yr achos ddylai gael ei ystyried fel y prif ffactor wrth benderfynu a fyddai hawliad yn addas i'w ystyried ar-lein. Roedd yr enghreifftiau a roddwyd yn cynnwys achosion lle gallai'r penderfyniad gael ei wneud ar sail y papurau, a rhai hawliadau cyflog. Fodd bynnag, nododd rhai ymatebwyr eu bod yn bosib i achosion ymddangos yn syml i ddechrau, ond wedyn bod angen i dyst ddarparu tystiolaeth ar faterion ffeithiol, ac felly gallant fod yn fwy cymhleth na'r disgwyl. Roedd yr ymatebwyr a wnaeth y syml hwn yn credu y byddai angen mwy o hyblygrwydd i'w newid yn wrandawiad ffisegol pe bai angen gwneud hynny. Gallai hyn olygu mai ychydig o achosion a fyddai'n briodol i'w hystyried ar-lein yn ymarferol.

26. Teimlai nifer o'r ymatebwyr ei bod yn bwysig ystyried anghenion y partïon penodol mewn achos, beth bynnag yw natur yr achos hwnnw. Bydd rhai partïon yn llai abl neu'n teimlo'n llai cyfforddus i ymdrin â'u hawliad ar-lein oherwydd eu hamgylchiadau personol. Gall hyn fod yn berthnasol i hawlwyr yn ogystal ag ymatebwyr mewn achos yn y Tribiwnlys Cyflogaeth.

27. Roedd rhai ymatebwyr yn amau'r dybiaeth y byddai ymdrin ag achosion ar-lein yn fwy effeithlon na gwrandawiadau wyneb yn wyneb. Gallai hyn fod oherwydd materion yn ymwneud â'r dechnoleg neu allu pobl i'w defnyddio'n effeithiol.

### *Ymateb y Llywodraeth*

28. Mae'r Llywodraeth wedi nodi yn y ddogfen ymgynghori ei bod yn credu na fydd hawliadau cymhleth yn addas i'w datrys ar-lein. Nid yw'r safbwynt hwn wedi newid. Gwelwn fod rhai o'r ymatebwyr yn credu hyn hefyd. Rydym yn derbyn y pryder y gall achosion megis hawliadau cyflog fod yn gymhleth.

29. Mae ystyried ar-lein yn derm eang sy'n cynnwys rheoli achosion a gwrandawiadau rhagarweiniol ar-lein yn ogystal â datrys hawliadau ar-lein. Ymddengys o'r ymatebion i'r cwestiwn hwn a'r cwestiwn blaenorol bod cefnogaeth eang i wneud rhai penderfyniadau rheoli achosion ar-lein. Er enghraifft, mae tua 45% o'r gwrandawiadau rheoli achosion eisoes yn cael eu cynnal dros y ffôn, a chredwn ei bod yn gwneud synnwyr i ni ddefnyddio mwy ar dechnolegau o bell er mwyn cynnwys cyfleusterau ar-lein. Gellid dadlau bod y tribiwnlysoedd cyflogaeth yn gwneud hyn yn barod wrth anfon gorchmynion rheoli achosion safonol drwy e-bost.

30. Byddai galluogi pob parti i ddarparu digon o wybodaeth i dribiwnlys yn y cam cynharaf yn sicrhau bod modd canfod craidd achosion yn gyflym, a chwynnu hawliadau neu amddiffyniadau sy'n annhebygol o lwyddo yn gynnar yn y broses. Bydd hyn yn sicrhau gwell cyfiawnder i bawb, drwy leihau'r angen am wrandawiadau ffisegol lle bo modd a thrwy hynny leihau rhywfaint o'r straen sy'n gysylltiedig â'r broses.

31. Fel cam diogelu i wneud yn siŵr nad yw defnyddwyr nad ydynt yn teimlo'n ddigon hyderus i ddefnyddio offer ar-lein yn cael eu rhoi dan anfantais, ni fydd prosesau ar-lein yn orfodol.

### *Y camau nesaf*

32. Nid oes angen deddfwriaeth er mwyn cynyddu'r defnydd o systemau digidol mewn Tribiwnlysoedd Cyflogaeth ac yn y Tribiwnlys Apêl Cyflogaeth. Mae cynnydd yn y maes hwn yn weithredol a bydd yn cael ei arwain gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi.

33. Mae diwygiadau ar draws y system gyfiawnder yn cael eu cyflwyno drwy gyfres o brosiectau sy'n edrych ar awdurdodaethau a gwasanaethau penodol. Mae pob prosiect gwasanaeth yn gyfrifol am wneud yn siŵr bod y lefel briodol o gefnogaeth ar gael i bobl sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol neu i'r rhai sydd heb lawer o sgiliau digidol neu hyder i'w defnyddio. Fel y nodwyd yn gynharach, disgwylir y bydd diwygiadau i'r Tribiwnlysoedd Cyflogaeth a'r Tribiwnlys Apêl Cyflogaeth yn cael eu cyflwyno yn rhan olaf y rhaglen, a bydd llawer iawn mwy o weithgareddau gyda defnyddwyr a rhanddeiliaid yn cael eu cynnal cyn cychwyn y diwygiadau.

34. Ceir rhagor o fanylion am y gefnogaeth dan ein rhaglen “Digidol â Chymorth” yn yr ymateb i ymgynghoriad *Gweddnewid ein system gyfiawnder*[5]. Bydd y rhaglen hon yn cael ei rhoi ar waith i gyd-fynd â’r newid i ddigidol.

[5] https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/transforming-our-courts-and-tribunals/results/transforming-our-justice-system-government-response.pdf

# Dirprwyo swyddogaethau barnwrol i weithwyr achos

35. Mae'r diwygiadau ehangach yn y llysoedd a'r tribiwnlysoedd yn ymwneud â chael system sy'n gyfiawn, yn hygyrch ac yn gymesur.

36. Roedd yr ymgynghoriad yn cyfeirio at ddefnyddio gweithwyr achos tribiwnlysoedd i gyflawni swyddogaethau penodol sy'n cael eu dirprwyo gan y farnwriaeth, ac yn nodi sut y gallai hyn ddigwydd mewn tribiwnlysoedd cyflogaeth er mwyn galluogi barnwyr i ganolbwyntio ar y dasg o wneud penderfyniadau cymhleth lle mae angen eu harbenigedd fwyaf.

37. Yn unol â'r cynigion hyn, byddai Pwyllgor Gweithdrefn y Tribiwnlysoedd yn gallu gwneud rheolau yn ymwneud â dirprwyo swyddogaethau barnwrol. Ein bwriad yw y byddai'n defnyddio'r un dull â'r un a ddefnyddir ar gyfer y system unedig. Byddai hyn yn golygu y byddai penderfyniadau ynghylch pa swyddogaethau fyddai'n briodol eu dirprwyo i weithwyr achos yn fater barnwrol ar gyfer Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd, mewn cydweithrediad â'r uwch farnwriaeth cyflogaeth. Er hyn, rydym yn tybio na fyddai'r dirprwyo'n cynnwys ystyriaeth sylweddol a/neu benderfynu ynglŷn â hawliau cyflogaeth unigolyn.

38. Byddai rheolau gweithdrefnol newydd yn nodi'n benodol y byddai unrhyw bartïon sy'n anfodlon â phenderfyniadau sy'n cael eu gwneud gan weithiwr achos tribiwnlys yn gallu gofyn i farnwr ystyried o'r newydd unrhyw benderfyniad sy'n cael ei wneud dan ddarpariaeth ddirprwyedig.

## Cwestiwn 3: Pa ffactorau yn eich barn chi y dylid eu hystyried wrth greu'r cwmpas er wyn cael rhagor o hyblygrwydd ar gyfer dirprwyo swyddogaethau barnwrol yn y tribiwnlysoedd cyflogaeth a'r Tribiwnlys Apêl Cyflogaeth?

39. Atebwyd y cwestiwn hwn gan 73 o ymatebwyr. Mae dadansoddiad o'r mathau o ymatebwyr i'w weld yn y tabl isod.

| Math o ymatebwr | Nifer yr ymatebion |
|---|---|
| Cynrychiolydd cyfreithiol | 22 |
| Unigolyn | 12 |
| Undeb Llafur | 9 |
| Y Farnwriaeth | 8 |
| Arall | 7 |
| Elusen neu fenter gymdeithasol | 6 |
| Sefydliad sy'n cynrychioli busnesau / Corff masnach | 3 |
| Busnes mawr (dros 250 o staff) | 2 |
| Llywodraeth | 1 |
| Llywodraeth leol | 1 |
| Busnes bach (10 i 49 o staff) | 1 |
| Adnoddau Dynol (AD) | 1 |

### *Crynodeb o'r ymatebion*

40. O'r 73 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn, roedd y mwyafrif helaeth yn cefnogi'r egwyddor o ddirprwyo tasgau i weithwyr achos tribiwnlysoedd gydag amodau.

41. Dywedodd rhai o'r ymatebwyr fod angen camau diogelu digonol, a chyfeiriodd eraill at yr angen am lefelau priodol o hyfforddiant a phrofiad mewn gweithdrefnau cyfraith cyflogaeth a thribiwnlysoedd, ynghyd â sgiliau cyfathrebu a hyfforddiant penodol yn ymwneud â materion amrywiaeth ac ymdrin ag ymgyfreithwyr sy'n cynrychioli eu hunain.

42. Roedd ymdeimlad cryf yn yr ymatebion y gallai tasgau rheoli achosion, mewn theori, gael eu dirprwyo i weithwyr achos â phrofiad a chymwysterau priodol mewn tribiwnlysoedd, ond bod natur cyfraith cyflogaeth ac ymgyfreitha, yn ymarferol, yn golygu mae'n debyg mai ychydig o swyddogaethau oedd yn debygol o fod yn addas i'w dirprwyo. Felly, er bod cydnabyddiaeth ei bod yn bosib y byddai partïon yn arbed amser o ganlyniad i ddirprwyo effeithiol, y gred gyffredinol oedd bod nifer yr achosion lle gellid cymhwyso dirprwyo o'r fath yn debygol o fod yn isel.

43. Roedd nifer o'r ymatebion o blaid ac yn erbyn yr egwyddor o ddirprwyo tasgau yn cyfeirio at y potensial i benderfyniadau gweithwyr achos arwain at heriau maith, sy'n gwbl groes i'r amcan o ddatrys anghydfodau'n gyflymach a gwneud defnydd mwy effeithlon o amser barnwyr.

44. Roedd rhai ymatebion (gan undebau llafur a chynrychiolwyr cyfreithiol yn bennaf) yn nodi'n glir eu bod yn gwrthwynebu'r egwyddor o ddirprwyo, gan gyfeirio at gymhlethdod posibl yr hyn a allai ymddangos ar yr olwg gyntaf yn hawliad cyflog cymharol syml a chanlyniad anfwriadol ceisiadau am adolygiad yn achosi mwy o oedi yn y broses ac yn cynyddu'r gost i'r ddau barti ac i'r tribiwnlys. Un ddadl oedd ei bod yn well cael profiad a gwybodaeth barnwr a fyddai'n ymwneud yn gynnar â phenderfyniadau rheoli achosion er mwyn symud yr achos yn ei flaen yn effeithiol a chanfod problemau yn fuan yn hytrach na dal achos yn ôl mewn cylch o ddirprwyo a cheisiadau yn gofyn i benderfyniadau gael eu hystyried eto gan farnwr.

45. Roedd nifer o ymatebion yn mynegi pryder bod y papur ymgynghori yn rhoi'r argraff na fyddai gweithwyr achos y tribiwnlys yn gymwys ac felly na fyddant yn addas ar gyfer cyflawni'r tasgau a amlinellir.

46. Roedd y rhanddeiliaid, yn eu hymatebion i'r ymgynghoriad ac yn ystod y sesiynau ymgysylltu, yn bendant, er bod dirprwyo achosion a gymeradwywyd gan farnwyr i weithwyr achos yn digwydd mewn tribiwnlysoedd eraill (gan gynnwys y Tribiwnlys Apêl Cyflogaeth), na ellid cymhwyso hyn yn uniongyrchol at Dribiwnlysoedd Cyflogaeth. Yn fwyaf arbennig, teimlai'r ymatebwyr ei bod yn debygol y byddai mwy o geisiadau i ailystyried penderfyniad gweithiwr achos tribiwnlys mewn Tribiwnlysoedd Cyflogaeth oherwydd natur parti i barti yr achosion.

### *Ymateb y Llywodraeth*

47. Mae'r Llywodraeth yn credu ei bod yn bwysig ein bod yn darparu trefniadau hyblyg er mwyn addasu'r system dribiwnlysoedd a'i galluogi i gyflawni heriau'r dyfodol. Rydym yn croesawu'r ymateb cefnogol at ei gilydd i'r cynnig, ond rydym yn cymryd sylw o'r pryder yn ymwneud â sicrhau bod y bobl iawn yn gofalu am benderfyniadau rheoli achosion ar yr adeg iawn a bod ganddynt y lefel briodol o gymwysterau a hyfforddiant.

48. Rydym yn cydnabod y pryder bod sefyllfa unigryw Tribiwnlysoedd Cyflogaeth yn golygu ei bod yn anos cymhwyso ein profiad o ddirprwyo mewn llysoedd a thribiwnlysoedd eraill. Er hyn, credwn y bydd rhai o'r gwersi a ddysgwyd mewn rhannau eraill o'r system gyfiawnder mewn cysylltiad â dirprwyo yn helpu'r farnwriaeth i benderfynu pa swyddogaethau sy'n addas i'w dirprwyo.

49. Mae'r Llywodraeth yn bwriadu gwneud Tribiwnlysoedd Cyflogaeth yn gyson â'r tribiwnlysoedd unedig a'r system gyfiawnder ehangach drwy ddarparu fframwaith creiddiol a fydd yn caniatáu i ddirprwyo ddigwydd lle bo'n briodol. Byddai hyn yn golygu y gallai rheolau Tribiwnlysoedd Cyflogaeth ddirprwyo swyddogaethau penodol i staff Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi, neu y gallai'r rheolau ddirprwyo'r awdurdod hwnnw i berson a enwir. Ni fyddai'r swyddogaethau hyn ond yn cael eu dirprwyo i staff sydd â'r cymwysterau neu'r hyfforddiant priodol.

50. Yn y system dribiwnlysoedd unedig, defnyddiwyd y pŵer hwn i awdurdodi Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd i benderfynu pa swyddogaethau ddylai gael eu dirprwyo i aelodau penodol o'r staff. Mae'n gwneud hynny ar ôl ymgynghori ag uwch farnwriaeth y Siambr berthnasol a rhanddeiliaid. Credwn y gallai'r dull hwn weithio cystal yn system y Tribiwnlys Cyflogaeth.

51. Rydym yn nodi'r pryderon a fynegwyd ynglŷn ag addasrwydd i ddirprwyo mewn Tribiwnlysoedd Cyflogaeth. Mae gan Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd ddyletswydd statudol i ystyried yr angen i dribiwnlysoedd fod yn hygyrch, i achosion fod yn deg ac i gael eu trin yn gyflym ac yn effeithlon, yr angen i aelodau tribiwnlysoedd fod yn arbenigwyr yn y pwnc neu'r gyfraith berthnasol a'r angen i ddatblygu dulliau arloesol o ddatrys anghydfodau. O ganlyniad, disgwyliwn mai dim ond ar ôl ymgysylltu pellach rhwng Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd, barnwriaeth y tribiwnlysoedd cyflogaeth a defnyddwyr tribiwnlysoedd y byddai swyddogaethau'n cael eu dirprwyo.

52. Byddwn yn edrych yn fanylach ar fater lefelau priodol o gymwysterau a hyfforddiant i weithwyr achos tribiwnlysoedd yn yr adran nesaf, ond rydym yn datgan unwaith eto mai'r bwriad yw sicrhau y bydd unrhyw hyfforddiant yn cael ei gomisiynu a'i ddarparu ar y cyd gan y farnwriaeth a Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi.

53. Gwelsom o'n profiad o ddirprwyo mewn tribiwnlysoedd eraill, a hefyd yn y llys sirol, nad yw'r cam diogelu o allu gofyn i farnwr ystyried unrhyw fater o'r newydd yn cael ei ddefnyddio'n aml, ond mae'r rhanddeiliaid wedi nodi'n glir y gallai heriau mewn maes ymgyfreitha sy'n cyffroi emosiynau, megis cyflogaeth â'i chyfran o bartïon heb gynrychiolaeth gyfreithiol, brofi'n wahanol.

## Cwestiwn 4: A oes unrhyw sgiliau arbennig y byddai eu hangen ar weithiwr achos sy'n delio â thribiwnlysoedd cyflogaeth a'r Tribiwnlys Apêl Cyflogaeth, sy'n unigryw ac yn wahanol o'u cymharu â'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer gwaith achos mewn tribiwnlysoedd eraill?

54. Yn dilyn y cwestiwn blaenorol roedd yr ymgynghoriad yn gofyn am adborth gan randdeiliaid ynglŷn â pha sgiliau y byddai ar weithiwr achos tribiwnlysoedd eu hangen er mwyn ystyried swyddogaethau barnwrol dirprwyedig yn y tribiwnlysoedd cyflogaeth.

55. Roeddem yn cydnabod na fyddai'r dull sy'n cael ei ddefnyddio mewn tribiwnlysoedd, lle mae anghydfodau gan mwyaf yn cynnwys parti yn herio penderfyniad gan y wladwriaeth, yn briodol o reidrwydd yn y tribiwnlysoedd cyflogaeth.

56. Atebwyd y cwestiwn hwn gan 65 o ymatebwyr. Mae dadansoddiad o'r mathau o ymatebwyr i'w weld yn y tabl isod.

| Math o ymatebwr | Nifer yr ymatebion |
|---|---|
| Cynrychiolydd cyfreithiol | 21 |
| Y Farnwriaeth | 9 |
| Undeb Llafur | 9 |
| Unigolyn | 7 |
| Arall | 6 |
| Elusen neu fenter gymdeithasol | 5 |
| Sefydliad sy'n cynrychioli busnesau / Corff masnach | 3 |
| Busnes mawr (dros 250 o staff) | 2 |
| Llywodraeth | 1 |
| Llywodraeth leol | 1 |
| Busnes bach (10 i 49 o staff) | 1 |

### *Crynodeb o'r ymatebion*

57. Barn gref yr ymatebwyr, gan gynnwys rhai o'r ymatebwyr a oedd yn gwrthwynebu'r egwyddor o swyddogaethau dirprwyedig, oedd y dylai gweithwyr achos tribiwnlysoedd, os oeddent yn mynd i fod yn cyflawni swyddogaethau dirprwyedig, fod â gwybodaeth briodol am gyfraith cyflogaeth, ynghyd â phrofiad o weithio mewn tribiwnlys cyflogaeth neu yn y Tribiwnlys Apêl Cyflogaeth.

58. Er hyn, roedd eu barn ynglŷn â faint o brofiad roedd ei angen yn amrywio. Roedd rhai ymatebwyr yn credu bod cymhlethdod cyfraith cyflogaeth, a'r effaith bosibl ar ganlyniad yr hyn a allai ymddangos ar yr olwg gyntaf yn benderfyniad gweinyddol syml, yn awgrymu i bob golwg y dylai gweithwyr achos tribiwnlysoedd gael cymwysterau cyfreithiol.

59. Roedd rhai ymatebwyr yn erbyn defnyddio gweithwyr achos tribiwnlysoedd ar y sail hon, ac yn gofyn pa werth fyddai gweithwyr achos yn ei ychwanegu os oedd yn rhaid iddynt i bob pwrpas gael yr un lefel o gymwysterau a phrofiad â barnwr cyflogaeth. Oherwydd hyn, awgrymodd un o'r ymatebwyr y gallai rôl gweithiwr achos tribiwnlys fod yn fwy addas ar gyfer barnwr yn derbyn ffi sy'n 'dysgu'r grefft' o fod yn farnwr cyflogaeth.

60. Yn ôl nifer o'r ymatebwyr roedd lefel uchel o brofiad mewn cyfraith cyflogaeth a gweithdrefnau tribiwnlys yn angenrheidiol er mwyn cyflawni'r rôl, ac yn hanfodol er mwyn rhoi hygrededd ac awdurdod i'r sawl oedd yn gwneud penderfyniadau. Byddai hyn yn lleihau'r gost a'r oedi posibl a fyddai'n digwydd pan fyddai penderfyniadau'n cael eu herio, a byddai hefyd yn rhoi sicrwydd i bartïon nad oeddent yn derbyn gwasanaeth eilradd i'r hyn a fyddai'n cael ei ddarparu gan farnwr cyflogaeth.

61. Gwnaethpwyd cymariaethau â rôl y Cofrestrydd yn y Tribiwnlys Apêl Cyflogaeth, a nodwyd bod ei gwybodaeth arbenigol hi am gyfraith cyflogaeth a'i phrofiad o ymarfer a gweithdrefnau yn sicrhau bod modd gwneud penderfyniadau dirprwyedig unffurf a chyson.

62. Yn ogystal â chyfeirio at bwysigrwydd cymwysterau a phrofiad o weithdrefnau roedd nifer o'r ymatebion yn cyfeirio at bwysigrwydd sgiliau cyfathrebu ac empathi, yn enwedig wrth ymdrin â phartïon heb gynrychiolaeth gyfreithiol a phartïon sy'n agored i niwed.

63. Teimlai rhai ymatebwyr na allent ateb y cwestiwn gan eu bod yn credu nad oeddent wedi cael digon o wybodaeth ynglŷn â pha dasgau fyddai'n cael eu cyflawni gan weithwyr achos tribiwnlysoedd i'w galluogi i ddweud pa sgiliau y byddai eu hangen.

### *Ymateb y Llywodraeth*

64. Fel y nodwyd ym mharagraff 26 o'r ddogfen ymgynghori[6], byddai gweithwyr achos tribiwnlysoedd wedi cael hyfforddiant neu gymwysterau cyfreithiol. Byddai pob penderfyniad a fyddai'n cael ei wneud dan awdurdod dirprwyedig yn cael ei wneud dan oruchwyliaeth barnwr a byddai barnwr yn craffu arno er mwyn sicrhau nad yw'r penderfyniadau sy'n cael eu gwneud o safon is. Mater i Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd fyddai penderfynu ynglŷn â lefel briodol y gweithiwr achos (o ran cymwysterau, gwybodaeth a phrofiad) ar gyfer y swyddogaethau dirprwyedig.

65. Gwelir enghraifft o hyn yn digwydd yn ymarferol mewn Tribiwnlysoedd Iechyd Meddwl lle mae'r datganiad ymarfer ar ddirprwyo yn amlinellu gwahanol ddyletswyddau ar gyfer gwahanol haenau o weithwyr achos.[7]

66. Mae'n amlwg, os bydd gweithwyr achos tribiwnlysoedd yn gwneud penderfyniadau ynglŷn â materion cymhleth, bod y rhanddeiliaid yn disgwyl y dylent o leiaf fod â dealltwriaeth dda o'r gyfraith a'r rheolau er mwyn lleihau'r potensial ar gyfer oedi o ganlyniad i ailystyried penderfyniadau. Mae Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd fel arfer yn gofyn i'r uwch farnwriaeth tribiwnlysoedd am gyngor, Llywyddion y Tribiwnlysoedd Cyflogaeth yn yr achos hwn, ac fel arfer disgwylid iddo ddilyn eu hargymhellion wrth benderfynu ynglŷn â lefel briodol y sgiliau a'r cymwysterau i gyflawni unrhyw ddyletswyddau barnwrol dirprwyedig. Ar wahân i gyfrannu eu gwybodaeth arbenigol eu hunain, byddai Llywyddion y Tribiwnlysoedd Cyflogaeth yn dal i ymgysylltu â'r farnwriaeth gyflogaeth ehangach a'r gymuned defnyddwyr tribiwnlysoedd (gan gynnwys grwpiau defnyddwyr), gan sicrhau bod unrhyw benderfyniadau sy'n ymwneud â'r fframwaith dirprwyo yn seiliedig ar wybodaeth drylwyr.

[6] www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/575001/Reforming_the_Employment_Tribunal_System_-_Consultation_Document_v3.pdf
[7] www.judiciary.gov.uk/wp-content/uploads/2015/04/delgation-of-functions-2015-after-27-april-2015.pdf

### *Y camau nesaf*

67. Mae’r Llywodraeth yn bwriadu symud ymlaen â’i chynnig i ddiwygio Deddf Tribiwnlysoedd Cyflogaeth 1996 er mwyn galluogi Pwyllgor Gweithdrefn y Tribiwnlysoedd i wneud rheolau yn ymwneud â dirprwyo swyddogaethau barnwrol i staff Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi. Bydd y pŵer hwn, yn fwyaf penodol, yn trefnu’r rheolau i ddirprwyo i Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd yr awdurdod i ddynodi’r swyddogaethau sydd i’w dirprwyo, a hefyd y categorïau o staff a all ymarfer y swyddogaethau dirprwyedig hynny.

68. Bydd y newidiadau hyn yn cael eu cyflwyno cyn gynted ag y bydd amser Seneddol yn caniatáu.

# Teilwra'r panel at anghenion yr achos

69. Roedd y papur ymgynghori'n amlinellu cynnig a fydd yn galluogi'r Arglwydd Ganghellor i ddirprwyo penderfyniadau sy'n ymwneud â chyfansoddiad paneli i Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd. Byddai hyn yn gwneud arferion system y tribiwnlysoedd cyflogaeth yn gyson â'r system dribiwnlysoedd unedig ac yn sicrhau bod modd ymgorffori unrhyw ddiwygiadau yn dilyn ymgynghoriad *Gweddnewid ein system gyfiawnder*.[8] Ein bwriad oedd rhoi hyblygrwydd i Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd benderfynu ynglŷn â'r ffordd orau o ddarparu arbenigedd angenrheidiol yn system y tribiwnlysoedd cyflogaeth ar ôl ymgynghori â'r uwch farnwriaeth tribiwnlysoedd cyflogaeth, yn yr un modd ag y gall wneud ar gyfer y system unedig.

70. Rydym yn cydnabod bod gan aelodau nad ydynt yn rhai cyfreithiol yn system y tribiwnlysoedd cyflogaeth hanes gwahanol, a'u bod yn cyflawni rôl ychydig yn wahanol i'r rôl a gyflawnir mewn tribiwnlysoedd eraill. Mae hyn yn golygu y bydd angen i'r dull o benderfynu ynglŷn ag aelodaeth y panel mewn tribiwnlysoedd cyflogaeth ac yn y Tribiwnlys Apêl Cyflogaeth ystyried agweddau gwahanol o bosibl i'r rhai sy'n cael eu hystyried yn y system unedig. O ganlyniad, gofynasom a oes materion penodol yn berthnasol i'r Tribiwnlys Cyflogaeth a'r Tribiwnlys Apêl Cyflogaeth y mae angen eu hystyried o ran newid y gyfraith ynglŷn â chyfansoddiad paneli, a chael cysondeb â'r system unedig.

## Cwestiwn 5: A oes materion penodol yn berthnasol i'r Tribiwnlys Cyflogaeth a'r Tribiwnlys Apêl Cyflogaeth y mae angen eu hystyried o ran newid y gyfraith ynglŷn â chyfansoddiad paneli?

71. Atebwyd y cwestiwn hwn gan 72 o ymatebwyr. Mae dadansoddiad o'r mathau o ymatebwyr i'w weld yn y tabl isod.

| Math o ymatebwr | Nifer yr ymatebion |
|---|---|
| Cynrychiolydd cyfreithiol | 23 |
| Y Farnwriaeth | 10 |
| Unigolyn | 9 |
| Undeb Llafur | 9 |
| Arall | 7 |
| Elusen neu fenter gymdeithasol | 5 |
| Sefydliad sy'n cynrychioli busnesau / Corff masnach | 3 |
| Busnes mawr (dros 250 o staff) | 2 |
| Llywodraeth | 1 |
| Llywodraeth leol | 1 |
| Busnes bach (10 i 49 o staff) | 1 |
| Adnoddau Dynol (AD) | 1 |

[8] https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/transforming-our-courts-and-tribunals/supporting_documents/consultationpaper.pdf

### *Crynodeb o'r ymatebion*

72. Roedd nifer o ymatebion yn nodi eu bod yn cefnogi'r hyblygrwydd ychwanegol a fyddai'n cael ei ddarparu yn sgil cynigion y Llywodraeth. Roedd rhai o'r ymatebwyr hyn yn credu y gallai'r cynigion hyn gynnig cyfleoedd eraill i ddod â mwy o arbenigedd i mewn, gan ddefnyddio arbenigedd anghyfreithiol ehangach sy'n cael ei defnyddio mewn rhannau eraill o'r system dribiwnlysoedd er mwyn sicrhau bod y broses o ddarparu gwybodaeth arbenigol gan arbenigwyr yn cael ei theilwra ar gyfer yr achos.

73. Yn gyffredinol, disgrifiodd llawer o'r ymatebwyr swyddogaeth bwysig a gwerth ychwanegol aelodau nad ydynt yn rhai cyfreithiol, a'r budd i system y Tribiwnlysoedd Cyflogaeth yn benodol. Teimlid yn gyffredinol bod aelodau nad ydynt yn rhai cyfreithiol yn gallu darparu gwybodaeth ac arbenigedd o'r gweithle nad yw ar gael o reidrwydd i'r barnwr ac, o ganlyniad, y gallai defnyddwyr ystyried bod mwy o hygrededd i'r penderfyniadau sy'n cael eu gwneud. Roedd rhai hefyd yn credu bod angen panel cytbwys, gydag un aelod o'r panel yn gyflogwr ac un yn weithiwr cyflogedig.

74. Mynegodd rhai o'r ymatebwyr bryder y byddai'r cynnig yn arwain at lai o ddefnydd o aelodau nad ydynt yn rhai cyfreithiol, ac y byddai hyn yn golygu na fyddai pobl yn gofyn am arbenigedd penodol mewn achosion lle mae ei angen. Roedd eraill yn credu y dylai panel â thri aelod fod yn ofynnol ym mhob gwrandawiad sy'n penderfynu ynglŷn ag achos yn y tribiwnlysoedd cyflogaeth. Ar y llaw arall, roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn credu ei bod yn briodol i gyfansoddiad y panel gael ei bennu naill ai ar sail achosion unigol neu yn ôl y math o achos, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd. Roedd llawer o'r ymatebwyr o'r farn bod y trefniadau presennol ar gyfer paneli eisoes yn briodol, gydag aelodau nad ydynt yn rhai cyfreithiol yn darparu eu harbenigedd yn awtomatig mewn achosion sydd angen arbenigedd. Dywedodd rhai o'r ymatebwyr y byddent yn hoffi gweld barnwyr yn defnyddio'u disgresiwn i gynnwys aelodau nad ydynt yn rhai cyfreithiol yn amlach.

75. Dywedodd yr ymatebwyr fod y trefniadau panel yn y Tribiwnlys Apêl Cyflogaeth ychydig yn wahanol i'r rhai yn y Tribiwnlysoedd Cyflogaeth, gan fod sefyllfa ddiofyn o un barnwr â disgresiwn barnwrol i sicrhau bod modd cynnwys arbenigedd ychwanegol ar y panel os oes angen. Teimlai'r ymatebwyr hyn fod y trefniadau eisoes yn gymesur ac yn hyblyg, ac y byddent yn hoffi gweld y system hon yn parhau yn y Tribiwnlys Apêl Cyflogaeth.

### *Ymateb y Llywodraeth*

76. Mae'r Llywodraeth yn cytuno bod aelodau nad ydynt yn rhai cyfreithiol yn rhan hanfodol o'r farnwriaeth Tribiwnlysoedd Cyflogaeth, oherwydd eu bod yn dod â sgiliau ac arbenigedd unigryw i'r system Tribiwnlys Cyflogaeth. Mae aelodau nad ydynt yn rhai cyfreithiol yn cynnig cyfraniad gwerthfawr i'r broses o wneud penderfyniadau mewn tribiwnlysoedd gan helpu i sicrhau bod y panel yn cael digon o wybodaeth, yn ogystal â darparu safbwynt amgen, nad yw'n seiliedig ar faterion cyfreithiol. Er bod y trefniadau ar gyfer cyfansoddiad panel yn y Tribiwnlys Apêl Cyflogaeth yn wahanol i'r rhai yn y tribiwnlysoedd cyflogaeth, mae'r ddwy set o drefniadau yn eu hanfod ar hyn o bryd yn benderfyniadau seneddol sy'n cael eu rhoi mewn grym drwy ddeddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth. Mae hyn yn wahanol i'r system dribiwnlysoedd unedig lle mae'r Arglwydd Ganghellor wedi dirprwyo'r cyfrifoldeb am benderfynu ynglŷn â chyfansoddiad panel i Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd fel bod y penderfyniad yn cael ei wneud fel swyddogaeth farnwrol. Mae penderfyniadau sy'n ymwneud â phennu a threfnu dyletswyddau barnwrol eisoes yn swyddogaethau barnwrol yn y system llysoedd.

77. Nid yw'n fwriad gennym roi'r gorau i ddefnyddio aelodau nad ydynt yn rhai cyfreithiol mewn achosion lle mae angen eu profiad o'r gweithle i helpu i ddod i benderfyniad ynglŷn

â'r achos. Byddant yn dal i gael eu cynnwys mewn achosion os oes eu hangen. Er hyn, credwn mai'r farnwriaeth, yn hytrach na Gweinidogion, ddylai fod yn gyfrifol am wneud yn siŵr bod hyn yn cael ei wneud yn y ffordd fwyaf effeithiol a chymesur yn y tribiwnlysoedd cyflogaeth a'r Tribiwnlys Apêl Cyflogaeth.

78. Mae Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd yn penderfynu ynglŷn â threfniadau cyfansoddiad ar gyfer tribiwnlysoedd yn y system unedig ar sail trafodaethau gyda'r uwch farnwriaeth tribiwnlysoedd ac ar ôl ymgynghori â rhanddeiliaid. Credwn fod hyn, ar y cyd â dyletswyddau statudol presennol Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd wrth ymarfer ei swyddogaethau[9], yn gam diogelu effeithiol er mwyn sicrhau y bydd aelodau nad ydynt yn rhai cyfreithiol yn dal i gael eu darparu yn y tribiwnlysoedd cyflogaeth a'r Tribiwnlys Apêl Cyflogaeth os oes eu hangen. O ganlyniad, bwriadwn fwrw ymlaen â'r gwaith o drefnu bod Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd yn gallu bod yn gyfrifol am benderfynu ynglŷn â chyfansoddiad paneli mewn Tribiwnlysoedd Cyflogaeth ac yn y Tribiwnlys Apêl Cyflogaeth yn yr un modd ag y mae'n gwneud ar gyfer y system unedig.

### *Y camau nesaf*

79. Mae'r Llywodraeth yn bwriadu bwrw ymlaen â'i chynnig i ddiwygio Deddf Tribiwnlysoedd Cyflogaeth 1996 er mwyn:

- rhoi'r pŵer i benderfynu ynglŷn â chyfansoddiad panel yn y Tribiwnlys Cyflogaeth ac yn y Tribiwnlys Apêl Cyflogaeth i'r Arglwydd Ganghellor; a
- threfnu bod modd dirprwyo'r pŵer hwn i Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd.

80. Ar ôl cychwyn y diwygiadau angenrheidiol i Ddeddf Tribiwnlysoedd Cyflogaeth 1996, bydd y Llywodraeth yn dirprwyo'r cyfrifoldeb am benderfynu ynglŷn â chyfansoddiad paneli i Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd. Bydd y newidiadau hyn yn cael eu cyflwyno cyn gynted ag y bydd amser Seneddol yn caniatáu.

---

[9] Gweler adran 2(3) o Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007 www.legislation.gov.uk/ukpga/2007/15/section/2

# Y dull a gynigir ar gyfer diwygio System y Tribiwnlysoedd Cyflogaeth

81. Yn y papur ymgynghori cynigiasom roi'r cyfrifoldeb dros wneud rheolau gweithdrefnol ar gyfer y system Tribiwnlys Cyflogaeth i Bwyllgor Gweithdrefn y Tribiwnlysoedd, y pwyllgor presennol dan arweiniad barnwrol, ac ehangu aelodaeth y Pwyllgor i adlewyrchu ei rôl ehangach drwy benodi barnwr cyflogaeth ac ymarferydd cyflogaeth. Byddai hyn yn sicrhau bod arbenigedd priodol yn cael ei gynnwys yn y broses o wneud rheolau gweithdrefnol newydd.

## Cwestiwn 6: Pa feini prawf y dylid eu defnyddio wrth benodi'r aelod newydd – yr ymarferydd cyflogaeth – i Bwyllgor Gweithdrefn y Tribiwnlysoedd?

82. Atebwyd y cwestiwn hwn gan 63 o ymatebwyr. Mae dadansoddiad o'r mathau o ymatebwyr i'w weld yn y tabl isod.

| Math o ymatebwr | Nifer yr ymatebion |
|---|---|
| Cynrychiolydd cyfreithiol | 19 |
| Unigolyn | 10 |
| Y Farnwriaeth | 10 |
| Undeb Llafur | 6 |
| Arall | 6 |
| Elusen neu fenter gymdeithasol | 4 |
| Sefydliad sy'n cynrychioli busnesau / Corff masnach | 3 |
| Busnes mawr (dros 250 o staff) | 1 |
| Llywodraeth | 1 |
| Llywodraeth leol | 1 |
| Busnes bach (10 i 49 o staff) | 1 |
| Adnoddau Dynol (AD) | 1 |

### *Crynodeb o'r ymatebion*

83. Roedd y rhan fwyaf o'r rhai a atebodd y cwestiwn hwn yn credu y dylai'r ymarferydd y bwriedid ei benodi fel aelod newydd o Bwyllgor Gweithdrefn y Tribiwnlysoedd fod â gwybodaeth fanwl o gyfraith cyflogaeth a phrofiad helaeth o ymarfer ar draws y system Tribiwnlys Cyflogaeth (gan gynnwys yn y Tribiwnlys Apêl Cyflogaeth), ac awgrymodd rhai ymatebwyr y dylai'r ymarferydd fod ag o leiaf 10 mlynedd o brofiad. Awgrymodd rhai ymatebwyr hefyd y dylai'r ymarferydd y bwriedid ei benodi fel aelod newydd o'r pwyllgor fod yn uwch gyfreithiwr yn hytrach na bargyfreithiwr, ond ni wnaeth y rhan fwyaf fynegi barn benodol. Awgrymodd nifer fach y gallai'r rôl hon fod yn addas i rywun nad yw'n gyfreithiwr, er mwyn gwneud yn siŵr bod buddiannau hawlwyr ac atebwyr heb gynrychiolaeth gyfreithiol yn cael eu cynrychioli'n briodol ar y Pwyllgor.

84. Roedd y rhan fwyaf o'r rhai a fynegodd farn ynglŷn â'r sgiliau y byddai ar yr ymarferydd eu hangen yn credu ei bod yn hanfodol bod gan yr ymarferydd cyflogaeth – yr aelod newydd - brofiad o gynrychioli hawlwyr ac atebwyr er mwyn gwneud yn siŵr bod eu

safbwyntiau gwahanol yn cael eu hadlewyrchu. Er bod nifer fach o'r atebwyr hyn yn credu mai'r ffordd orau o wneud hyn oedd drwy benodi dau ymarferydd, roedd y rhan fwyaf yn cytuno y byddai un aelod â phrofiad addas yn gallu cynrychioli'r ddau safbwynt yn effeithiol.

85. Er nad oedd yn faes yr ymgynghorwyd arno, roedd rhai ymatebwyr, gan gynnwys y rhai o'r sector undebau llafur a Chydffederasiwn Diwydiant Prydain, yn anghytuno y dylai Pwyllgor Gweithdrefn y Tribiwnlysoedd gyflawni'r swyddogaeth arfaethedig. Roedd arnynt eisiau cadw cysylltiad agos rhwng y system Tribiwnlys Cyflogaeth a rheoli polisi cyfraith cyflogaeth, ac roeddent yn bryderus na fyddai gan Bwyllgor Gweithdrefn y Tribiwnlysoedd yr arbenigedd angenrheidiol i gyflawni'r rôl arfaethedig yn effeithiol. Yn hytrach, roeddent yn cynnig y dylai'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol barhau i fod yn gyfrifol am faterion gweithdrefnol ac y dylai unrhyw ystyriaeth o reolau newydd gael ei gwneud drwy adolygiad dan arweiniad y farnwriaeth, ac a fyddai'n cynnwys yr holl randdeiliaid, fel yr un a gynhaliwyd gan Syr Nicholas Underhill[10] a arweiniodd at gyflwyno'r rheolau Tribiwnlysoedd Cyflogaeth presennol yn 2013[11].

### *Ymateb y Llywodraeth*

86. Mae'r Llywodraeth yn cydnabod y rôl bwysig y mae proses ddatrys anghydfod effeithiol a chymesur yn ei chwarae drwy helpu i amddiffyn hawliau cyflogaeth a phwysigrwydd gweithio gyda chynrychiolwyr y ddwy ochr mewn diwydiant er mwyn gwneud yn siŵr bod y system yn gweithio i fusnesau a gweithwyr fel ei gilydd. Mae'r tribiwnlys cyflogaeth yn sefyll ar ei ben ei hun fel piler ar wahân yn y system dribiwnlysoedd, ac mae hynny'n caniatáu i'w reolau a'i weithdrefnau adlewyrchu natur unigryw tribiwnlys parti-i-barti sy'n ymdrin ag anghydfodau sy'n gallu bod yn rhai hynod bersonol a chymhleth. Er hyn, nid yw system y tribiwnlysoedd cyflogaeth yn gweithredu ar ei phen ei hun, a chredwn ei bod yn bwysig y dylai, lle bo'n briodol, adlewyrchu'r gwelliannau yn y system gyfiawnder ehangach a chadw'r agweddau gwerthfawr sy'n unigryw i'r tribiwnlysoedd cyflogaeth. Credwn mai'r ffordd orau o gyflawni hyn yw drwy roi'r cyfrifoldeb am reoli'r system i'r rhai sydd yn y sefyllfa orau i ddeall y system honno, sef y farnwriaeth a'r rhai sy'n ei defnyddio'n aml.

87. Er bod yr adolygiad a gynhaliwyd gan Syr Nicholas Underhill wedi llwyddo i gyflawni'r diwygiadau mawr yr oedd eu hangen i'r rheolau tribiwnlysoedd cyflogaeth yn 2013, nid ydym yn credu y byddai hon yn ffordd effeithiol o gynnal yr adolygiad ailadroddol, rheolaidd o faterion gweithdrefnol sydd ei angen er mwyn cefnogi a chynnal system gyfiawnder effeithiol, neu newid i ddigidol drwy broses ailadroddol. Yn hytrach, credwn y bydd trosglwyddo'r cyfrifoldeb am reolau Tribiwnlysoedd Cyflogaeth a'r Tribiwnlys Apêl Cyflogaeth i Bwyllgor Gweithdrefn y Tribiwnlysoedd yn caniatáu i'r rheolau a'r gweithdrefnau hynny fod yn fwy ymatebol i heriau datrys anghydfodau cymhleth yn y gweithle, a'r diwygiadau ehangach sy'n cael eu cyflwyno'n gyffredinol ar draws y system gyfiawnder, nag sy'n bosibl dan y fframwaith deddfwriaethol presennol.

88. Mae gan Bwyllgor Gweithdrefn y Tribiwnlysoedd ddyletswydd statudol yn barod i ymgynghori â'r cyfryw bersonau y mae'n credu ei bod yn briodol ymgynghori â hwy cyn gwneud rheolau gweithdrefnol. Byddai hyn fel arfer yn cynnwys defnyddwyr tribiwnlysoedd a rhanddeiliaid eraill. Bydd hyn yn berthnasol i unrhyw reolau newydd ar gyfer system y tribiwnlysoedd cyflogaeth. Er hyn, fel y nodwyd yn y papur ymgynghori,

---

[10] www.gov.uk/government/consultations/employment-tribunal-rules-review-by-mr-justice-underhill
[11] www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/429633/employment-tribunal-procedure-rules.pdf

rydym yn cydnabod na fyddai Pwyllgor Gweithdrefn y Tribiwnlysoedd yn gallu ymgymryd â'r rôl hon ar gyfer system y tribiwnlysoedd cyflogaeth heb ddealltwriaeth arbenigwyr ychwanegol. Mae'n amlwg o'r ymatebion i'r cwestiwn hwn mai'r farn gref yw y dylai'r aelod newydd – yr ymarferydd cyflogaeth - fod â phrofiad helaeth o ymarfer yn system y tribiwnlysoedd cyflogaeth ac y dylai allu cynrychioli buddiannau hawlwyr ac atebwyr yn effeithiol, a byddwn yn ystyried sut i adlewyrchu hyn yn y gofynion ar gyfer y penodiadau newydd arfaethedig i Bwyllgor Gweithdrefn y Tribiwnlysoedd.

## Cwestiwn 7: A ydych yn cytuno y bydd y newidiadau deddfwriaethol arfaethedig yn cynnig digon o hyblygrwydd i sicrhau bod modd cydnabod yn briodol nodweddion penodol y tribiwnlysoedd cyflogaeth a'r Tribiwnlys Apêl Cyflogaeth yn y system cyfiawnder ddiwygiedig?

89. Atebwyd y cwestiwn hwn gan 56 o ymatebwyr. Mae dadansoddiad o'r mathau o ymatebwyr i'w weld yn y tabl isod.

| Math o ymatebwr | Nifer yr ymatebion |
|---|---|
| Cynrychiolydd cyfreithiol | 17 |
| Y Farnwriaeth | 9 |
| Unigolyn | 8 |
| Undeb Llafur | 8 |
| Elusen neu fenter gymdeithasol | 5 |
| Arall | 4 |
| Sefydliad sy'n cynrychioli busnesau / Corff masnach | 2 |
| Busnes mawr (dros 250 o staff) | 1 |
| Llywodraeth | 1 |
| Adnoddau Dynol (AD) | 1 |

### *Crynodeb o'r ymatebion*

90. Rhoddodd 37 o'r ymatebwyr ateb pendant i'r cwestiwn. O'r rhain, roedd 20 yn cytuno a 17 yn anghytuno. Roedd yr ymatebion eraill yn fwy amrywiol.

91. Roedd y rhan fwyaf yn cytuno bod y newidiadau deddfwriaethol arfaethedig yn debygol o fod yn ddigon hyblyg i allu cydnabod yn briodol nodweddion penodol system y tribiwnlysoedd cyflogaeth. Roedd rhai'n mynegi pryder ynglŷn â'r risg bosibl na fyddai gan aelodau newydd Pwyllgor Gweithdrefn y Tribiwnlysoedd ddigon o rym wrth wneud rheolau gweithdrefnol newydd, ond yn cytuno y dylid profi hyn.

92. Roedd yr ymatebwyr hynny a oedd yn anghytuno yn pryderu'n bennaf na fyddai Pwyllgor Gweithdrefn y Tribiwnlysoedd yn gallu cyflawni'r swyddogaeth newydd yn effeithiol. Yn hytrach, cynigiodd rhai o'r ymatebwyr y dylai rheolau gweithdrefnol ddal i gael eu gwneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol yn dilyn un adolygiad dan arweiniad y farnwriaeth a fyddai'n cynnwys yr holl randdeiliaid â diddordeb.

93. Roedd nifer fach o’r ymatebwyr yn credu na fyddent yn gallu rhoi barn bendant ynglŷn â pha mor ddigonol oedd y newidiadau deddfwriaethol er mwyn diogelu nodweddion penodol system y tribiwnlysoedd cyflogaeth nes byddai diwygiadau gweithdrefnol penodol yn cael eu cyflwyno i’w hystyried, a phan fyddai modd gweld sut y byddai Pwyllgor Gweithdrefn y Tribiwnlysoedd yn ymdrin â’r rhain.

### *Ymateb y Llywodraeth*

94. Fel y nodwyd yn ein hymateb i Gwestiwn 6, mae’r Llywodraeth yn cydnabod na fyddai Pwyllgor Gweithdrefn y Tribiwnlysoedd yn gallu bod yn gyfrifol am wneud rheolau gweithdrefnol ar gyfer system y tribiwnlysoedd cyflogaeth heb ddealltwriaeth arbenigwyr ychwanegol, a bwriadwn benodi aelodau ychwanegol priodol ar ffurf barnwr cyflogaeth ac ymarferydd cyflogaeth profiadol addas i’r Pwyllgor i adlewyrchu ei rôl ehangach.

95. Er bod Pwyllgor Gweithdrefn y Tribiwnlysoedd yn gyfrifol am y ffordd y mae’n cyflawni ei gyfrifoldebau statudol, fel arfer mae’n rhoi’r cyfrifoldeb am ystyried rheolau newydd ar gyfer awdurdodaethau penodol i is-grwpiau dynodedig. Mae’r grwpiau hyn yn gyfrifol am ymchwilio i’r mater, sy’n cynnwys ymgysylltu ag unrhyw grwpiau allanol y maent yn teimlo y gallent fod o gymorth. Nid ydym yn rhagweld y bydd angen diwygio llawer ar y rheolau presennol. Yn hytrach, mae’n debygol y byddai unrhyw newid yn cael ei gyflwyno’n raddol, drwy broses ailadroddol ac mewn meysydd penodol. Er mai mater i Bwyllgor Gweithdrefn y Tribiwnlysoedd ei ystyried fyddai hyn, byddem yn disgwyl y byddai’n sefydlu is-grŵp cyflogaeth dan arweiniad yr aelodau hynny sydd â phrofiad ym maes cyflogaeth er mwyn sicrhau ystyriaeth briodol o unrhyw ofynion gweithdrefnol newydd.

96. Wrth wneud rheolau newydd, mae gan Bwyllgor Gweithdrefn y Tribiwnlysoedd ddyletswydd statudol i ymgynghori â’r cyfryw bersonau y mae’n credu y byddai’n briodol ymgynghori â hwy, ac mae’n debyg y byddai hynny’n cynnwys rhanddeiliaid perthnasol. Byddai’r ddyletswydd statudol hon hefyd yn berthnasol i rôl ehangach y Pwyllgor o wneud rheolau ar gyfer system y tribiwnlysoedd cyflogaeth, sy’n golygu y byddem yn disgwyl y byddai’r Pwyllgor yn ymgysylltu â’r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol, y proffesiynau cyfreithiol a chynrychiolwyr o’r sector cyflogwyr a’r sector gweithwyr.

97. Rhan bwysig o’r rhaglen gweddnewid cyfiawnder yw gwneud yn siŵr bod anghenion defnyddwyr yn cael eu hadnabod yn iawn, eu bod yn cael eu profi a bod sylw priodol yn cael ei roi iddynt, ac mae hyn yn golygu ymgysylltu â defnyddwyr unigol a rhanddeiliaid ehangach. Wrth i ni symud ymlaen â’r broses o ddatblygu a gweithredu’r rhaglen ddiwygio mae’r Llywodraeth yn cydnabod y bydd angen i ni adolygu a diweddaru ein trefniadau presennol ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn adlewyrchu’n briodol, er enghraifft, y newid i ffocws ein gwaith o ganlyniad i drosglwyddo cyfrifoldeb gweinidogaethol am faterion gweithdrefnol yn system y tribiwnlysoedd cyflogaeth. Bwriadwn weithio gyda rhanddeiliaid er mwyn asesu beth fyddai’r ffordd orau o wneud hyn.

98. Mae’r Llywodraeth yn credu y bydd aelodaeth ehangach y Pwyllgor, y ddyletswydd statudol i’r Pwyllgor ymgynghori a’r cynlluniau i ddatblygu trefniadau ymgysylltu newydd yn golygu y bydd modd dal i adlewyrchu’n briodol nodweddion penodol system y tribiwnlysoedd cyflogaeth.

### *Y camau nesaf*

99. Mae'r Llywodraeth yn bwriadu bwrw ymlaen â'i chynnig i ddiwygio Deddf Tribiwnlysoedd Cyflogaeth 1996 er mwyn:

- rhoi'r pŵer i wneud rheolau gweithdrefnol i Bwyllgor Gweithdrefn y Tribiwnlysoedd; a
- phenodi dau aelod ychwanegol i Bwyllgor Gweithdrefn y Tribiwnlysoedd ar ffurf barnwr cyflogaeth ac ymarferydd cyfreithiol â phrofiad penodol o'r system Tribiwnlys Cyflogaeth.

100. Bydd y newidiadau hyn yn cael eu cyflwyno cyn gynted ag y bydd amser Seneddol yn caniatáu. Ochr yn ochr â'r newidiadau deddfwriaethol hyn, bydd y Llywodraeth yn dal i ymgysylltu â rhanddeiliaid er mwyn datblygu prosesau ymgysylltu priodol ac effeithiol i adlewyrchu'r trefniadau newydd.

# Asesu'r Effaith ac Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb

*Roeddem wedi cyhoeddi Asesiad Effaith ac Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb i gyd-fynd â'r ddogfen ymgynghori.*

101. Yn yr ymgynghoriad, credid bod y diwygiadau'n cael effaith fuddiol ar y cyfan ar gyflogwyr. Byddai mwy o ddefnydd o rith-wrandawiadau yn arbed costau ac amser teithio i wrandawiadau, tra byddai technoleg ddigidol yn gwneud gwrandawiadau'n llyfnach ac yn fwy effeithlon. Byddai cyfanswm y budd i'r cyflogwyr yn £1.7m y flwyddyn ar ôl i'r diwygiadau gael eu sefydlu'n llawn. Yr unig gostau sylweddol fyddai costau ymgyfarwyddo untro o £0.5m i weithwyr cyfreithiol proffesiynol.

102. Credid na fyddai llawer o effeithiau penodol ar fusnesau bach a micro, gan fod mynediad eang at y rhyngrwyd ymhlith busnesau. Dadleuwyd bod mynediad at dechnoleg yn debygol o fod yn fwy dibynnol ar natur gwaith busnes yn hytrach na'i faint. Mewn achosion lle mae mynediad at dechnoleg yn gyfyngedig, byddai prosesau'n addasu yn unol â hynny. Byddai gwrandawiadau mwy effeithlon, a lleihad yn yr amser a dreulid yn teithio i wrandawiadau, o fudd i bob busnes, yn enwedig busnesau bach o bosibl pe bai perchennog y busnes yn mynd i'r gwrandawiadau ei hun fel arall. Yn yr ymgynghoriad, teimlid nad oedd y diwygiadau i'r Tribiwnlysoedd Cyflogaeth yn arwain at wahaniaethu uniongyrchol yn erbyn defnyddwyr Tribiwnlysoedd Cyflogaeth, y farnwriaeth na staff Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi.

103. Datgelodd yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ei bod yn bosibl y byddai effeithiau anghyfartal ar farnwyr tribiwnlysoedd cyflogaeth sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig penodol sy'n ymwneud ag oed, ethnigrwydd a rhyw, ond credid y gellid cyfiawnhau'r rhain. Dangosodd y ddogfen hefyd nad oedd y diwygiadau i'r tribiwnlysoedd cyflogaeth yn cael effaith anffafriol o ran aflonyddu ac erledigaeth, nac o ran yr angen i feithrin cysylltiadau da. Yn olaf, awgrymodd yr asesiad y gallai cyfle cyfartal ymhlith defnyddwyr tribiwnlysoedd cyflogaeth gael ei hyrwyddo gan y bydd y tribiwnlysoedd cyflogaeth yn fwy hygyrch i bobl a allai fod yn cael problemau â'r system ar hyn o bryd.

## Cwestiwn 8: A ydych yn rhagweld y bydd effeithiau'r diwygio arfaethedig yn anghymesur o fawr ar gyfer busnesau bach neu ficro? Esboniwch eich ateb, gan gyfeirio at dystiolaeth lle bydd angen.

104. Atebwyd y cwestiwn hwn gan 55 o ymatebwyr. Mae dadansoddiad o'r mathau o ymatebwyr i'w weld yn y tabl isod.

| Math o ymatebwr | Nifer yr ymatebion |
|---|---|
| Cynrychiolydd cyfreithiol | 17 |
| Unigolyn | 9 |
| Y Farnwriaeth | 8 |
| Undeb Llafur | 6 |
| Elusen neu fenter gymdeithasol | 5 |
| Arall | 4 |
| Sefydliad sy'n cynrychioli busnesau / Corff masnach | 2 |
| Busnes mawr (dros 250 o staff) | 2 |
| Llywodraeth leol | 1 |
| Busnes bach (10 i 49 o staff) | 1 |

### *Crynodeb o'r ymatebion*

105. Roedd nifer o'r ymatebwyr yn rhagweld y byddai'r effeithiau'n anghymesur o fawr ar fusnesau bach neu ficro. Roedd pryder bod gan fusnesau bach at ei gilydd lai o adnoddau a gwybodaeth o fewn y sefydliad i addasu i'r newidiadau. Efallai nad oes ganddynt gyfleusterau technolegol digonol i gael mynediad at systemau ar-lein neu'r gallu i ddefnyddio technoleg newydd yn effeithiol, yn enwedig os nad oes ganddynt gynrychiolaeth gyfreithiol. Yn ychwanegol at hyn, gallai heriau niferus i benderfyniadau gweithwyr achos effeithio ar fusnesau bach neu ficro nad oes ganddynt yr adnoddau i gymryd rhan mewn rhagor o anghydfodau.

106. Er nad oedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn rhagweld y byddai'r effeithiau'n anghymesur o fawr ar fusnesau bach neu ficro, ni roddodd y rhan fwyaf ohonynt unrhyw eglurhad dros eu hateb. Awgrymodd nifer fach o'r ymatebwyr y byddai'r newidiadau o fudd i fusnesau bach neu ficro. Awgrymodd ymatebwyr eraill nad oedd maint y busnes yn berthnasol, ac os y disgwylid i ymgyfreithwyr heb gynrychiolaeth gyfreithiol ddefnyddio'r broses ddigidol, y dylai busnesau bach a micro hefyd allu gwneud hyn.

107. Roedd gan rai ymatebwyr bryderon eraill ynglŷn â darparu cefnogaeth a chanllawiau clir a chamau diogelu priodol. Roedd eraill yn bryderus ynglŷn â materion mynediad at gyfiawnder i fusnesau bach a micro oherwydd yr anfanteision y gallent eu hwynebu o ganlyniad i'r newidiadau.

### *Ymateb y Llywodraeth*

108. Pwrpas yr Asesiad Effaith oedd amlinellu rhagdybiaethau a phrofi barn gwahanol bartïon sydd â diddordeb. O ganlyniad, mae'r Llywodraeth yn croesawu barn am effeithiau posibl gwasanaeth diwygiedig ar fusnes. Rydym yn cydnabod y materion sy'n ymwneud â mynediad at dechnoleg, herio penderfyniadau gweithwyr achos a sicrhau bod cefnogaeth ac arweiniad priodol ar gael.

109. Nid yw union fanylion y pecyn diwygio'n cael eu pennu gan y ddeddfwriaeth sylfaenol. Y cyfan y mae'r ddeddfwriaeth yn ei wneud yw galluogi'r diwygiadau arfaethedig i ddigwydd. Mae cyfle nawr i fireinio'r rhagdybiaethau cyffredinol a gymhwyswyd yn yr asesiad effaith, gan ddefnyddio adborth a gafwyd yn ystod yr ymgynghoriad a gwaith datblygu pellach wrth symud ymlaen. Bydd ffurf derfynol y gwasanaeth yn seiliedig ar ymchwil defnyddwyr penodol, a fydd yn canolbwyntio ar sicrhau bod anghenion busnesau'n cael eu diwallu, beth bynnag eu maint.

110. Roedd y cwestiwn a ofynnwyd yn yr ymgynghoriad yn ymwneud yn benodol ag effeithiau ar fusnesau wrth gyflawni ymrwymiad y Llywodraeth i ddadreoleiddio. Er hyn, mae llawer o'r materion a godwyd gan yr ymatebwyr yr un mor berthnasol i hawlwyr. Mae'r Llywodraeth eisiau gweld y broses newydd yn cynnig gwasanaeth mwy cyfleus ac effeithlon, heb roi mynediad at gyfiawnder yn y fantol. Bydd ymchwil pellach yn ystyried holl ddefnyddwyr tribiwnlysoedd cyflogaeth, busnesau ac unigolion fel ei gilydd.

## Cwestiwn 9: A ydych yn cytuno ein bod wedi nodi'n gywir yr ystod o effeithiau ar gydraddoldeb yn sgil y cynigion hyn, fel y'u nodir yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb?

111. Atebwyd y cwestiwn hwn gan 49 o ymatebwyr. Mae dadansoddiad o'r mathau o ymatebwyr i'w weld yn y tabl isod.

| Math o ymatebwr | Nifer yr ymatebion |
|---|---|
| Cynrychiolydd cyfreithiol | 13 |
| Unigolyn | 9 |
| Undeb Llafur | 7 |
| Y Farnwriaeth | 6 |
| Elusen neu fenter gymdeithasol | 6 |
| Arall | 4 |
| Sefydliad sy'n cynrychioli busnesau / Corff masnach | 2 |
| Busnes mawr (dros 250 o staff) | 1 |
| Llywodraeth | 1 |

### *Crynodeb o'r ymatebion*

112. Rhoddodd 22 o'r ymatebwyr ateb pendant i'r cwestiwn. O'r rhain, roedd 14 yn cytuno ac 8 yn anghytuno. Roedd yr ymatebion eraill yn fwy amrywiol.

113. Roedd llawer o'r ymatebwyr a fynegodd eu barn am yr effeithiau ar gydraddoldeb yn credu bod y Llywodraeth wedi nodi'n gywir yr effeithiau amrywiol ar gydraddoldeb a

fyddai'n deillio o'i chynnig. Roedd gan rai ymatebwyr amheuon ynglŷn â'r risg na fyddai digon o adnoddau'n cael eu darparu er mwyn sicrhau bod y system yn gweithio'n effeithlon, neu risgiau yn ymwneud ag oedran a'r posibilrwydd na fyddai rhywun yn gyfarwydd â thechnoleg. Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylid rhoi'r diwygiadau ar waith yn raddol er mwyn lleihau'r risg o effeithiau na ellir eu rhagweld.

114. Teimlai rhai o'r ymatebwyr fod angen rhagor o eglurder ynglŷn â beth fyddai'r system newydd yn ei olygu, a theimlai rhai fod angen rhagor o wybodaeth er mwyn ateb y cwestiwn.

115. Roedd lleiafrif yn anghytuno â'r effeithiau a nodwyd gan y Llywodraeth, gan ddweud nad oedd cynnydd yn y risg o wahaniaethu, yn enwedig i hawlwyr ag anableddau neu bobl nad ydynt yn siarad Saesneg, wedi ei nodi'n gywir. Teimlai rhai fod y system newydd yn rhoi amcan rhy isel o'r anawsterau y byddai rhai defnyddwyr yn ei gael wrth geisio mynegi eu hunain yn ysgrifenedig. Roedd rhai ymatebwyr hefyd yn bryderus y byddai lleihau nifer yr aelodau ar baneli yn cael effaith negyddol ar amrywiaeth. Yn olaf, teimlai rhai ymatebwyr nad oedd dadansoddiad digonol wedi'i roi ac nad oedd yr effeithiau ar ddefnyddwyr wedi eu nodi'n gywir. Er hyn, ni chyfeiriodd yr ymatebwyr hyn at ffynonellau eraill a oedd yn cynnwys tystiolaeth o effaith ar gydraddoldeb.

116. Yn gyffredinol, un o'r prif ffactorau a oedd yn achosi pryder i lawer o ymatebwyr o hyd oedd mynediad hawlwyr a chyflogwyr at gyfleusterau technolegol, a'u gallu i ddefnyddio'r rhyngrwyd yn effeithiol, a allai eu rhwystro rhag cael mynediad at y tribiwnlysoedd cyflogaeth a'r Tribiwnlys Apêl Cyflogaeth yn y pen draw.

### *Ymateb y Llywodraeth*

117. Mae'r Llywodraeth wedi nodi pryder yr ymatebwyr, yn enwedig ynglŷn â'r risg bosibl o wahaniaethu a'r effaith bosibl ar bobl sydd ag anableddau neu ddefnyddwyr nad ydynt yn siarad Saesneg. Rydym yn sylweddoli bod rhai pobl sydd â nodweddion gwarchodedig penodol yn debygol o gael mwy o anhawster i ddefnyddio systemau digidol.

118. Fel y nodwyd yn yr ymateb i ymgynghoriad *Gweddnewid ein system gyfiawnder*[12], bydd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi yn gweithredu rhaglen ddigidol â chymorth briodol er mwyn cefnogi unigolion nad ydynt yn hunangynhaliol mewn technolegau digidol ar draws y system gyfiawnder. Bydd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi hefyd yn cynnig hyfforddiant a chefnogaeth briodol i farnwriaeth y tribiwnlysoedd cyflogaeth a'r Tribiwnlys Apêl Cyflogaeth ac i staff Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi. Os bydd y gefnogaeth hon ar gael, credwn ei bod yn annhebygol y bydd unrhyw wahaniaethu anuniongyrchol yn deillio o faterion yn ymwneud â gallu digidol neu fynediad at systemau digidol. Bydd cael gwared ar brosesau papur a chyflwyno mwy o ddigideiddio yn lleihau amser prosesu a chostau gweithredu, gan symleiddio gweinyddiaeth Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi a chyflymu'r gwaith o brosesu hawliadau yn sylweddol.

119. Cyn y gallwn sicrhau mynediad at gyfiawnder i bawb bydd angen gwneud ymchwil defnyddwyr manwl, ac edrych ar anghenion penodol defnyddwyr tribiwnlysoedd cyflogaeth a'r Tribiwnlys Apêl Cyflogaeth. Bydd yr ymchwil hwn, ynghyd â thystiolaeth a fydd yn dod i'r amlwg wrth i'r diwygiadau gael eu rhoi ar waith, yn sicrhau ein bod yn deall anghenion defnyddwyr sydd â nodweddion gwarchodedig (gan gynnwys pobl sydd ag anableddau) ac yn darparu'n briodol ar eu cyfer.

[12] www.gov.uk/government/consultations/transforming-our-courts-and-tribunals

### *Y camau nesaf*

120. Mae’r Llywodraeth wedi defnyddio’r ymatebion i’r ymgynghoriad er mwyn diweddaru’r Asesiad Effaith a’r Dadansoddiad o Faterion Cydraddoldeb. Mae’r Asesiad Effaith wedi cael ei gyflwyno i’r Pwyllgor Polisi Rheoleiddio i gael ei ddilysu. Byddwn yn ei gyhoeddi cyn gynted ag y bydd wedi cael ei ddilysu.

121. Cyhoeddir y Dadansoddiad o Faterion Cydraddoldeb ochr yn ochr â’r ymateb hwn. Byddwn yn ei adolygu’n gyson. Bydd ymchwil pellach yn canolbwyntio ar anghenion defnyddwyr sydd â nodweddion gwarchodedig (gan gynnwys pobl sydd ag anableddau) er mwyn sicrhau bod pob defnyddiwr yn cael mynediad priodol at y gwasanaeth newydd a chanlyniadau teg.

# Atodiad A: Rhestr o’r unigolion/sefydliadau yr ymgynghorwyd â hwy

- Acas
- Cymdeithas yr Ymgyngoriaethau Recriwtio
- Cymdeithas yr Arweinwyr Ysgolion a Cholegau
- Cymdeithas Athrawon a Darlithwyr
- Cymdeithas y Gyfraith, Birmingham
- Cydffederasiwn Diwydiant Prydain
- Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu
- Cyngor ar Bopeth
- Cyngor ar Bopeth yr Alban
- Cyngor y Barnwyr Cyflogaeth
- Cyngor y Gymdeithas Aelodau Tribiwnlysoedd
- Croner Group Limited
- Cymdeithas Cyfraith Gwahaniaethu
- Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
- Tribiwnlys Apêl Cyflogaeth
- Pwyllgor Aelodau Lleyg y Tribiwnlys Apêl Cyflogaeth
- Pwyllgor Defnyddwyr y Tribiwnlys Apêl Cyflogaeth
- Cyfreithwyr Cyflogaeth yr Alban
- Cymdeithas y Bar ar Gyfraith Cyflogaeth
- Cymdeithas Cyfreithwyr Cyflogaeth
- Tribiwnlysoedd Cyflogaeth (Cymru a Lloegr)
- Fforwm Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
- Yr Uned Cynrychiolaeth Rydd
- GMB
- Ymatebion gan unigolion
- Kuits
- Cymdeithas y Gyfraith (Cymru a Lloegr)
- Cymdeithas y Gyfraith, yr Alban
- Lewis Silkin LLP
- Cymdeithas y Gyfraith, Lerpwl
- Cyngor Dinas Manceinion

- Cymdeithas Aelodau Tribiwnlys Canolbarth Lloegr (Gorllewin) – TMAWM
- Mind
- Morrish Solicitors LLP
- Undeb Cenedlaethol yr Athrawon
- Newman HR Ltd
- Number 18 Chambers
- Peninsula Business Services
- Phillips Solicitors
- Prospect
- PSM HR Outsourcing Limited
- Undeb y Gwasanaethau Cyhoeddus a Masnachol
- Quantrills Employment Law and HR Solicitors
- RBP Ltd
- Barnwyr Cyflogaeth Rhanbarthol (Cymru a Lloegr)
- Resolutions
- Taylor & Emmet LLP
- Fforwm Busnesau Preifat
- Thompsons Solicitors
- TUC
- Unsain
- Unite
- Y Tribiwnlys Prisio
- Ward Hadaway
- Cymdeithas Tribiwnlysoedd Cyflogaeth Watford
- Weightmans
- Llywodraeth Cymru

© Hawlfraint y Goron 2017

Cewch ailddefnyddio'r wybodaeth hon (heb gynnwys y logos) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence, ysgrifennu at y Tîm Polisi Gwybodaeth, The National Archives, Kew, Llundain TW9 4DU, neu anfon neges e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Mae’r cyhoeddiad hwn ar gael yn: www.gov.uk/beis

Os ydych chi angen y cyhoeddiad hwn mewn fformat gwahanol, anfonwch e-bost at: enquiries@beis.gov.uk